CYNGOR CYMUNED LLANFAIR MATHAFARN EITHAF

COFNODION o gyfarfod y Cyngor a gynhaliwyd yn Neuadd Goffa Goronwy Owen, Benllech ar Nos Lun, 27 Mawrth, 2017 am 7.00 o'r gloch.

PRESENNOL Mr R O Jones, (Cadeirydd), (Benllech A), Mr P Day, (Benllech B), Mr K F Griffiths, (Benllech A), Mrs W Owen, (Llanbedrgoch), Mrs J Peers, (Llanbedrgoch), Mr I Williams, (Benllech B), Miss N Williams, (Benllech B).

175 YMDDIHEURIADAU

Derbyniwyd ymddiheuriadau am absenoldeb gan y canlynol :- Mr J Cotterell, Ms G M Davies, Mr G Harker-Roberts, Mr D Hughes, Mrs D Roberts .

176 COFNODION.

Llofnododd y Cadeirydd Gofnodion Gyfarfod y Cyngor a gynhaliwyd ar 21 Chwefror, 2017.

Yn codi o'r cofnodion ;

177 (2016/2017) - 171 TRAFFIG YN SGWAR BENLLECH.

Eglurwyd na fuasai'n bosib i drefnu Cyfarfod Cyhoeddus parthed traffig yn Sgwar Benllech hyd y cyfnod sy'n dilyn Etholiadau Llywodraeth Leol ar y 4 o Fai 2017.

LLWYBRAU FFYRDD A PHALMENTYDD

178 CYNGOR SIR YNYS MON – GORCHYMYN TRAFFIG.

Cyflwynwyd er gwybodaeth – gohebiaeth a dderbyniwyd gan Gyngor Sir Ynys Mon yn cyfeirio at Orchymyn Traffig ym Mrynteg.

179 MATERION PRIFFYRDD AMRYWIOL.

Adroddwyd gan Aelodau – amrywiol faterion a oedd angen sylw.

GOHEBIAETH

180 CYNGOR SIR YNYS MON – YMDDIRIEDOLAETH ELUSENNOL.

Cyflwynwyd er gwybodaeth – llythyr gan Gyngor Sir Ynys Mon yn hysbysu Pwyllgor Adfywio'r Ymddiriedolaeth Elusennol wedi argymell rhoi £10,000 i'r Cyngor Cymuned tuag at uwchraddio'r sustem Teledu Cylch Cyfyng. Disgwylir cadarnhad o'r argymhelliad ar yr 18 Ebrill 2017 gan gyfarddu'r Ymddiriedolaeth lawn.

181 CYNGOR SIR YNYS MON – ARBRAWF GORFODAETH.

Cyflwynwyd – gohebiaeth gan Adran Briffyrdd Cyngor Sir Ynys Mon yn cyfeiro at y bwriad i gynnal arbrawf drwy gyflogi cwmni preifat "Kingdom" o ddechrau haf 2017 lle byddant yn rhoi dirwy sefydlog o £75 ar gyfer pob trosedd yn ymwneud a sbwriel a baw cwn heb ei godi / lanhau. Dymuna'r Cyngor Sir farn y Cyngor Cymuned a'u cefnogaeth o'r arbrawf yma.

PENDERFYNWYD – cefnogi'r arbrawf yn llwyr.

182 CYNGOR SIR YNYS MON – DEDDF TEITHIO LLESOL (CYMRU) 2013.

Cyflwynwyd – llythyr gan Gyngor Sir Ynys Mon yn manylu amserlen y Ddeddf Teithio Llesol ac yn estyn gwahoddiad i sesiwn "Galw Heibio / Casglu Gwybodaeth ar y 3 o Ebrill 2017, yng Nghapel Ebenezer, Stryd y Bont, Llangefni, rhwng 5 a 7 yr hwyr.

183 COMISIWN FFINIAU I GYMRU – AIL GYFNOD YMGYNGHORI.

Cyflwynwyd er gwybodaeth – diweddariad gan y Comisiwn Ffiniau i Gymru yn cadarnhau derbyn a chyhoeddi'r holl ymatebion a gafwyd parthed y newidiadau bwriedig i etholaethau Seneddol yng Nghymru.

184 PARTNERIAETH GWYNEDD A MON – DEDDF LLESIANT CENEDLAETHAU'R DYFODOL LLYWODRAETH CYMRU.

Cyflwynwyd – cyhoeddiad o lyfrynnau gwybodaeth ar gyfer pob un o'r 14 ardal yn dilyn gwaith ymchwil gan Bartneriaeth Gwynedd a Mon. Bydd y Bwrdd Gwasanaethau Cyhoeddus yn defnyddio'r asesiadau a wnaed ynghyd a nifer o ffynnonhellau eraill i lunio Cynllun Llesiant.

185 GRANTIAU A RHODDION.

Cyflwynwyd – cais am grant gan y canlynol :-

(i) Ffermwyr Ifanc Mon

PENDERFYNWYD – ar sail y pwerau a roddwyd yn Adran 137 Deddf Llywodraeth Leol 1972 (fel y'i diwygiwyd) ac oherwydd bod y Cyngor o'r farn fod y gwariant yn unol a gofynion yr Adran, cymeradwyo talu :-

grant o £100 i Ffermwyr Ifanc Mon.

BILIAU A CHYFRIFON

186 BILIAU

PENDERFYNWYD - talu'r biliau a ganlyn :-

Edwards Accounting	Paratoi gwybodaeth	£30-00
Eira Fon Parry	Gwasanaeth Cyfieithu	£56-00
Lingo Cyf	Hurio offer cyfieithu	£36-00
G E Pritchard	Ad-daliad Llungerfio / Papur	£34-99
Photostatic	Llungopio	£83-23
Richard Edwards	Torri gwair	£3754-22
Gwasanaethau CCTV	Arwyddion	£641-28

187 CYFRIFON.

Cyflwynwyd - cyfrif yn dangos manylion y taliadau a wnaethpwyd gan y Clerc (yn cynnwys taliadau o dan Gynllun Dirprwyo cyfredol y Cyngor) ym Chwefror 2017.

PENDERFYNWYD – nodi'r cyfrif a chymeradwyo'r taliadau.

188 CYLLIDEB Y CYNGOR.

Cyflwynwyd – manylion o dderbyniadau a gwariant y Cyngor i gymharu a'i gyllideb am y cyfnod o Ebrill 1, 2016 i ddiwedd mis Chwefror 2017.

PENDERFYNWYD – nodi a chymeradwyo'r manylion.

MATERION CYFFREDINOL

189 ARCHWILIWR MEWNOL 2016/2017.

Trafodwyd penodi Archwiliwr Mewnol ar gyfer Cyfrifon y Cyngor Cymuned am 2016/2017, awgrymwyd parhau gyda Mr John Roberts a chytunwyd yn unfrydol i benodi Mr John Roberts.

190 CYNGOR SIR YNYS MON – NODYN BRIFFIO AR GANIATAD ARBENNIG.

Derbyniwyd ebost gan Gadeirydd Pwyllgor Safonau Cyngor Sir Ynys Mon oedd yn cynnwys Nodyn Briffio a Ffurflen Gais ddiwygiedig i'w defnyddio os dymuna aelod wneud cais am Ganiatad Arbenig.

Dymuna'r Pwyllgor Safonau gael cymaint o rybudd a phosib fod cais am Ganiatad Arbennig yn cael ei gyflwyno os yw'n ymwneud a sawl aelod o fewn yr un Cyngor. Yn ddelfrydol hoffai'r Pwyllgor dderbyn isafswm o bum diwrnod gwaith rhwng derbyn y Ffurflen Gais a dyddiad Cyfarfod y Cyngor Cymuned pan fo'r Caniatad Arbennig yn cael ei ddibynnu arno.

Danfonwyd copi o'r Nodyn Briffio a'r Ffurflen Gais Caniatad Arbennig i bob aelod ar yr un adeg a Rhaglen Cyfarfod Mawrth.

191 GWEITHIWR TYMHOROL.

Eglurodd y Clerc nad oedd wedi rhoi hysbyseb am y swydd o Weithiwr Tymhorol yn y wasg leol gan fod costau gwneud hynny yn afresymol. Cafwyd pris o £699 a TAW am un diwrnod yn y "Daily Post a'r Holyhead & Anglesey Mail" a phris o £399 a TAW am yr "Holyhead & Anglesey Mail" yn unig, eto am un diwrnod.

Ar ol trafod penderfynwyd hysbysebu ar Wefan y Cyngor Cymuned a'r "Arwydd". Hefyd ar wefannau perthnasol ac efallai ar wefan Cyngor Sir Ynys Mon os oedd hyn yn bosib.

192 CYNGOR SIR YNYS MON – STRATEGAETH DDRAFFT Y GWASANAETH LLYFRGELL.

Derbyniwyd llythyr gan Delyth Molyneux, Pennaeth Dysgu, Cyngor Sir Ynys Mon, parthed Strategaeth Ddrafft y Gwasanaeth Llyfrgell a'r broses o ymgynghori ar ddyfodol y Gwasanaeth Llyfrgell yn ystod tymor yr Hydref 2015. Cyflwynwyd Strategaeth Ddrafft y Gwasanaeth Llyfrgell 2017-22 i'r Pwyllgor Gwaith ar y 14 o Chwefror 2017. Cytunodd y Pwyllgor Gwaith i awdurdodi swyddogion i gynnal

ymgynghoriad cyhoeddus ar Strategaeth Ddrafft y Gwasanaeth Llyfrgell yn fuan ar ol etholiad llywodraeth leol ar y 4 Mai 2017.

193 LLYFRGELL BENLLECH.

Rhoddodd y Clerc fraslun o gyfarfod a gafodd gyda Bethan Fraser Williams o Fenter Mon parthed dyfodol Llyfrgell Benllech. Eglurodd fod Menter Mon wedi cael arian Prosiect Leader i hyrwyddo gwasanaeth y Llyfrgell i gylch mwy eang drwy gynnal gweithgaredd fuasai'n codi proffeil y bwriad o drosglwyddo'r gwasanaeth llyfrgell i ofal y gymuned leol. Buasai angen cynnal tair sesiwn o fewn y llyfrgell ar bynciau eang i gynnwys Technoleg gwybodaeth, hyfforddiant adeiladu gwefan ayyb. Yn angenrheidiol hefyd oedd mewnbwn gan y Cyngor Cymuned mewn ffordd ymarferol, e.e. presenoli mewn sesiynau i gynorthwyo.

PENDERFYNWYD – fod y syniad yn bositif, na fuasai yn costio i'r Cyngor, felly symud ymlaen i'r cam nesaf.

CYNLLUNIO

194 CEISIADAU

PENDERFYNWYD ar y ceisiadau cynllunio o flaen y Cyngor fel a ganlyn:-

1. Caniatau :

30C718B	Glasfryn, Llanbedrgoch

195 PENDERFYNIADAU

Adroddwyd er gwybodaeth - penderfyniadau cynllunio diweddar Gyngor Sir Ynys Môn.

Terfynwyd y Cyfarfod am 7-30 yr hwyr.